Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



# Monitor Lles Plant a Pobl Ifanc Cymru 2011

## Crynodeb Gweithredol

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5951 8
© Hawlfraint y Goron 2011
WAG11-11204
F7011011

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

**Awdur: Richard Thurston**

Dyma'r ail mewn cyfres o adroddiadau ar les plant a phobl ifanc yng Nghymru. Cafodd y cyntaf ei gyhoeddi yn 2008 mewn ymateb i alwadau gan y Cenhedloedd Unedig i lywodraethau gyhoeddi gwybodaeth y gellir ei defnyddio i asesu cynnydd a llunio polisïau sy'n arwain at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud hyn yn Cymru'n Un, gyda'r bwriad o gyhoeddi rhifynnau newydd o'r Monitor bob tair blynedd.

Mae'r Monitor yn bwysig yng nghyd-destun helpu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i fesur a deall y materion sy'n effeithio ar les plant a phobl ifanc a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i'r gwaith o lunio polisïau a'u gwerthuso.

Nod y Monitor yw adrodd ar les plant a phobl ifanc (0-25 oed) gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion lles, canfyddiadau o'r sail dystiolaeth ehangach a lleisiau plant a phobl ifanc eu hunain.

Trefnir y Monitor ar sail themâu Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc, sydd eu hunain yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) (gweler Blwch 1). Mae'r Saith Nod Craidd yn ceisio sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Cymru yn cael y canlynol:

- y dechrau gorau mewn bywyd;
- amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- yr iechyd gorau posibl a bod yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio;
- cyfle i chwarae a mwynhau gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol;
- bod rhywun yn gwrando arnynt, yn eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol;
- heb fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

## Blwch 1: Pedair Egwyddor Gyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw'r UNCRC sy'n rhoi set gynhwysfawr o hawliau dynol i blant a phobl ifanc (o dan 18 oed). Llofnododd y DU y confensiwn ar 19 Ebrill 1990, fe'i cadarnhawyd ar 16 Rhagfyr 1991 a daeth i rym yn y DU ar 15 Ionawr 1992.

Pedair egwyddor graidd yr UNCRC yw:

- dim gwahaniaethu;
- gweithredu er budd y plentyn;
- yr hawl i fywyd, goroesi, a datblygu;
- parchu safbwyntiau'r plentyn.

Am ragor o wybodaeth, gweler http://www.unicef.org/crc/

Erys nodau sylfaenol y Monitor yr un peth, sef:

- rhoi gwybodaeth ddibynadwy a chyfoes am les plant yng Nghymru, fel y gall Llywodraeth y Cynulliad fonitro tueddiadau allweddol ac ymateb iddynt;
- cynnig cyfle i olrhain targedau tlodi plant trawsbynciol Llywodraeth y Cynulliad yng nghyd-destun lles plant;
- codi ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen ymdrin â hwy er mwyn sicrhau lles plant a phobl ifanc;
- bodloni gofyniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) i bob aelod-wlad gyhoeddi data ar les plant yn rheolaidd.

Caiff y Monitor ei ysgrifennu gan dimau o ymchwilwyr cymdeithasol, ystadegwyr ac economegwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd.

Defnyddir llawer o ffynonellau data yn y Monitor ar gyfer y dangosyddion. Cymerwyd gofal i sicrhau bod pob ffynhonnell yn gadarn ac yn ddilys. Cyflwynir dangosyddion ar lefel Cymru gyfan ac mae pob dangosydd a gynhwyswyd yn y Monitor cyntaf yn ailymddangos gan gynnwys data ar ddangosyddion Tlodi Plant Llywodraeth y Cynulliad. Mewn rhai achosion nid oes unrhyw newid am nad oes unrhyw ddata newydd ar gael.

## Monitor ar ei Newydd Wedd

Mae Monitor 2011 yn dra gwahanol i'r fersiwn blaenorol. Yn fwyaf nodedig, mae bellach yn sôn am blant a phobl ifanc 0-25 oed (dim ond y rheini hyd at 18 oed y soniodd rhifyn 2008 amdanynt) er mwyn adlewyrchu ffocws polisi Llywodraeth y Cynulliad ar y grŵp oedran hwn a'r newid o fod yn rhywun ifanc i fod yn oedolyn.

Elfen arall sy'n newydd yw cynnwys gwybodaeth a safbwyntiau gan blant a phobl ifanc eu hunain; bu modd iddynt leisio barn drwy'r gwaith ymchwil ansoddol a gomisiynwyd sef astudiaeth *Voices of Children and Young People in Wales* (a gynhaliwyd gan Brifysgol Glyndŵr). Nodwyd bod hyn yn fwlch yn y rhifyn blaenorol o'r Monitor ond cydnabuwyd ei fod yn bwysig iawn yn nhermau meithrin gwybodaeth am yr hyn sy'n cyfrif o safbwynt plant a phobl ifanc eu hunain. Caiff prif ganfyddiadau'r astudiaeth hon eu nodi yn y crynodeb hwn a chaiff y deunydd ansoddol ei ymgorffori ym mhrif adroddiad Monitor; bydd hefyd gyhoeddiad ar wahân sy'n sôn am y canfyddiadau yn fwy manwl. Cafodd adolygiad mwy cynhwysfawr o dystiolaeth sy'n bodoli eisoes gan Brifysgol Caerdydd ei gomisiynu hefyd a defnyddiwyd y canfyddiadau i lunio naratif y penodau.

Nodwyd dangosyddion a ffynonellau data newydd a'u cynnwys. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr ystod oedran newydd. Hefyd, yn y bennod ragarweiniol, canolbwyntir yn fwy ar ddamcaniaethau lles yn rhannol oherwydd y diddordeb cynyddol mewn lles fel cysyniad sy'n llywio polisïau llywodraethau.

Mae canfyddiadau gwaith Llywodraeth Cymru ar gyllidebu plant a phobl ifanc wedi'u cynnwys hefyd.

Rhan bwysig o Monitor 2008 oedd nodi bylchau sylweddol mewn tystiolaeth. Ers 2008, gwnaed gwaith i fynd i'r afael â rhai o'r bylchau hyn. Mewn mannau eraill mae'r bylchau hyn i'w gweld o hyd ac maent yn gofyn am waith ac ymrwymiad parhaus gan Lywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid perthnasol. Mae Monitor 2011 hefyd yn nodi rhai bylchau ychwanegol. Mae a wnelo un datblygiad parhaus nodedig â gwaith sy'n ystyried sut i ddwyn ynghyd ddata arolwg cynrychiadol gan blant a phobl ifanc eu hunain ar eu lles a'u barn ar wasanaethau cyhoeddus.

Y gwahaniaeth mwyaf nodedig yw bod Monitor 2011 yn dechrau llunio cyfres amser o ddata ar ddangosyddion lles allweddol. Mae'r crynodeb canlynol o ganfyddiadau allweddol yn amlygu rhai o'r prif dueddiadau ynghyd â chanfyddiadau allweddol gwaith ymchwil ansoddol gyda phlant a phobl ifanc, a eglurir yn fanylach yn y prif adroddiad.

## Canfyddiadau Allweddol

### Y Darlun Demograffig o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Dros y blynyddoedd diwethaf, mewnfudo fu'r prif reswm dros y twf ym mhoblogaeth Cymru. Fodd bynnag, mae Cymru wedi gweld newid naturiol cadarnhaol (h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau) ers 2005-06.


Mae tua 962,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n 0-25 oed. Mae nifer y genedigaethau yn parhau i gynyddu ac, yn 2009, cafodd 34,900 o fabanod eu geni yng Nghymru (Gweler Ffigur 1). Golyga hyn fod nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol (5-15 oed) yn dechrau cynyddu, er ei bod wedi lleihau'n ddiweddar oherwydd cyfraddau geni is blaenorol.

O ganlyniad i newidiadau mewn disgwyliad oes, disgwylir i nifer y bobl ifanc 0-25 oed leihau 2.5% mewn perthynas â'r boblogaeth gyffredinol gan gyrraedd 937,700 erbyn canol 2020.

Data demograffig allweddol arall sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru:

- Cynyddodd nifer y genedigaethau byw yng Nghymru o 32,000 yn 2006 i 34,900 yn 2009.
- Mae cyfraddau marwolaeth ymhlith y rheini sy'n 0-19 oed yng Nghymru yn parhau i ostwng ac, yn 2009, roedd 291 o farwolaethau, sy'n 40.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth.
- Fel mewn blynyddoedd diweddar, lleihaodd nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol (5-15 oed) mewn ysgolion a gynhelir ond cynyddodd ymhlith plant o dan 5 oed a'r grŵp oedran 16-19+ oed.
- Ni fu newid o ran lefelau gallu yn yr iaith Gymraeg ers y rhifyn diwethaf o'r Monitor gyda 13% o blant cynradd ac 16% o blant uwchradd yn siaradwyr rhugl.
- Mae'r mwyafrif llethol o blant ysgol pump oed a throsodd yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn Prydeinig (91.8%).

Ffigur 1: Poblogaeth ragamcanol yn ôl grŵp oedran yng Nghymru (canol 2011 i ganol 2023)




Ffynhonnell: Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth a rhagamcanion cenedlaethol 2008, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


## Blwch 2: Darn allan o astudiaeth *Voices of Children and Young People in Wales* (Noder nad yw ar gael yn Gymraeg)

Wrth i blant dyfu'n hŷn ac wrth i rieni ollwng eu rheolaeth dros eu hamgylcheddau a'u dewisiadau, maent yn derbyn mwy o gyfrifoldeb am eu diogelwch, eu hiechyd a'u dyfodol. Roedd yn amlwg yn yr astudiaeth hon er i bobl ifanc sôn am fod yn gyfrifol drostynt eu hunain (a thrin pobl fel y byddent hwythau am gael eu trin), fod rhywfaint o dawedogrwydd yn perthyn i fod yn gyfrifol dros eraill. Fodd bynnag, siaradodd y bobl ifanc hynny â phlant eu hunain am eu cyfrifoldebau dros eu plant, gan roi blaenoriaeth i'r rhain cyn eu buddiannau eu hunain gan amlaf. Roedd yn ymddangos bod eu pryderon am eu plant wedi'u llywio'n bennaf gan eu profiadau a'u pryderon hwy eu hunain a'r cyfleoedd oedd ar gael iddynt fel pobl ifanc.

### Grwpiau Penodol o Blant a Phobl Ifanc

Un o ganfyddiadau mwyaf syfrdanol y Monitor yw bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 44% dros y 10 mlynedd diwethaf (gweler Ffigur 2). Mae'n debygol bod y cynnydd hwn yn gysylltiedig â nifer o ffactorau gan gynnwys mwy o angen a/neu bolisïau ac arferion awdurdodau lleol.

Ffigur 2: Nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ar 31 Mawrth (1997-2010)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, y gwyddys eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, hefyd wedi cynyddu. Rhwng 2009 a 2010 cafwyd cynnydd o ychydig dros 1% mewn ysgolion cynradd ac ychydig o dan 1% mewn ysgolion uwchradd.

Mae'r Monitor hefyd yn sôn am duedd i lawr ers 2000/01 mewn perthynas â datganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA). Yn 2010, mae gan 14,128 o ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru bellach ddatganiadau o gymharu â 17,400 yn 2000/01.

Ymhlith y data allweddol arall sy'n ymwneud â grwpiau penodol o blant a phobl ifanc mae'r canlynol:

- Mae 150,616 o blant a phobl ifanc 0-18 oed yn byw gyda rhiant anabl.
- Mae 933 o ofalwyr ifanc (o dan 18 oed) yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol.
- Mae tua 25,000 o blant mewn angen.
- Yn 2009/10, nododd y rhan fwyaf o'r rheini yn y grŵp oedran 16-24 oed yng Nghymru (94.9%) eu bod yn heterorywiol neu'n strêt a nododd 2.8% eu bod yn hoyw, yn lesbaidd, yn ddeurywiol neu fel arall. Ni wnaeth 1.3% ateb y cwestiwn a gwrthododd 1% arall ateb y cwestiwn.
- Mae tua 59,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n 18 oed ac iau yn byw ar aelwyd sydd ag o leiaf bedwar plentyn dibynnol 19 oed ac iau.


## Y Blynyddoedd Cynnar

Bod yn iach adeg eu geni a thrwy'r blynyddoedd cynnar yw un o ddangosyddion pwysicaf lles plant. Gellir mesur iechyd plant bach mewn sawl ffordd wahanol ac mae llawer o'r dangosyddion allweddol a nodir yma yn ymgorffori'r rheini a ddefnyddir gan UNICEF, gan gynnwys pwysau geni isel; cyfradd marwolaethau babanod ac imiwneiddio yn ystod plentyndod.

Mae pwysau baban adeg ei eni yn ffactor pwysig sy'n pennu ei iechyd yn y dyfodol ac mae pwysau geni isel yn gysylltiedig â chanlyniadau andwyol o ran iechyd ac addysg wael. Mae'r babanod hynny sy'n pwyso llai na 2,500g adeg eu geni yn wynebu risg o ddiffygion o ran eu tyfiant, datblygiad gwybyddol, diabetes a chlefyd y galon. Ceir hefyd dystiolaeth bod babanod sy'n pwyso bach iawn adeg eu geni (1,500g neu'n is) yn wynebu mwy o risg o gael anawsterau dysgu yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae cyfran y babanod â phwysau geni isel (llai na 2,500g) yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf (gweler Ffigur 3). Rhwng 1993 a 2000, cynyddodd y gyfran hon o 6.3% i 7.5%. Ers 2000, mae'r gyfran wedi aros yn gymharol sefydlog, ac eithrio gostyngiad yn 2005. Yn 2009, roedd gan 7.3% o fabanod bwysau geni isel.

Ffigur 3: Canran y bywanedig yn pwyso llai na 2,500 gram, Cymru (1993-2009)




Ffynhonnell: Ystadegau Geni, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y canfyddiadau allweddol eraill sy'n ymwneud â lles plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar yw:

- Mae cyfradd marwolaethau babanod yn parhau i ostwng ac yn 2009 roedd yn 4.8 fesul 1,000 o enedigaethau.
- O blith plant 4-7 oed, mae 73% yn bwyta ffrwythau bob dydd ac mae 57% yn bwyta llysiau bob dydd.

- Yn achos plant saith oed gwelwyd y sgorau gwybyddol uchaf ymhlith plant mamau sydd wedi graddio a'r rheini o deuluoedd yn y grwpiau incwm uchaf.
- Mae bechgyn yn fwy tebygol na merched o fod ag anghenion addysgol arbennig ac mae hyn yn amlwg iawn yn achos anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol ac anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Dywed 68 y cant o blant saith oed fod ganddynt 'lawer o ffrindiau'.
- Mae nifer y plant dwy oed sy'n cael eu himiwneiddio rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (MMR) yn parhau i gynyddu o lefel isel o 80% yn 2003-04. Yn 2009-10, roedd 92% o blant dwy oed wedi cael eu himiwneiddio rhag MMR.
- Yn 2010 roedd 81.6% o ddisgyblion yn cyflawni lefel dau (y lefel ddisgwyliedig) o leiaf yn y Dangosydd Pwnc Craidd fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Dyma'r lefel uchaf o gyflawniad a gofnodwyd dros y 10 mlynedd diwethaf.
- Perfformiodd merched yn well na bechgyn ymhob pwnc yn y Dangosydd Pwnc Craidd, er yn ddiweddar mae'r bwlch hwn rhwng y rhywiau wedi bod yn lleihau ychydig bach bob blwyddyn.

### Cael Cyfleoedd Addysg, Hyfforddiant a Dysgu

Mae Cymru yn parhau i weld gwelliant graddol o ran perfformiad Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ac o ran mesurau cyrhaeddiad TGAU/Cyfnod Allweddol 4, ond dengys cymariaethau rhyngwladol nad yw disgyblion Cymru yn gwneud cystal.

Yn fwyaf nodedig, dengys canlyniadau mwyaf diweddar Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) nad yw disgyblion yng Nghymru yn perfformio cystal o asesu lefelau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth, a hefyd nid ydynt yn perfformio cystal o'u cymharu â'u cymheiriaid yng ngwledydd eraill y DU, ac mae lefelau perfformiad yn is na chyfartaledd OECD ym meysydd darllen a mathemateg (gweler Tabl 1).

**Tabl 1: Sgorau meysydd asesu PISA, y DU a chyfartaledd OECD (2009)**

| Maes asesu | Cymru | Cyfartaledd OECD | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Lloegr |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 476 | 493 | 500 | 499 | 495 |
| Mathemateg | 472 | 496 | 499 | 492 | 493 |
| Gwyddoniaeth | 496 | 501 | 514 | 511 | 515 |

Ffynhonnell: Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)

Mae rhywedd yn parhau i fod yn ffactor hollbwysig wrth edrych ar les addysgol plant a phobl ifanc Cymru. Er enghraifft, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn mewn asesiadau yn ystod addysg orfodol a thu hwnt. Fodd bynnag, dengys asesiadau PISA, sy'n canolbwyntio ar gymhwyso


gwybodaeth, fod bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn dau allan o'r tri phwnc a asesir (hy mathemateg a gwyddoniaeth).

Y patrwm mwyaf amlwg arall yw bod amddifadedd yn parhau i fod yn gysylltiedig ag absenoldeb a chyfraddau cyrhaeddiad is yn y rhan fwyaf o feysydd addysg i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Canfyddiadau addysg allweddol eraill y Monitor yw:

- Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi aros yn weddol debyg am dros ddegawd (gweler Ffigur 4).
- Mae nifer y gwaharddiadau parhaol yng Nghymru (yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr achosion yn hytrach na disgyblion) wedi lleihau o tua 1.0 i 0.5 fesul 1,000 o ddisgyblion ers y Monitor blaenorol (a gyflwynodd ddata 2005/06).
- Mae nifer y cofrestriadau[1] gan fyfyrwyr o dan 25 oed sy'n hanu o Gymru[2] i sefydliadau addysg uwch wedi cynyddu dros y naw mlynedd diwethaf o 49,260 yn 2000/01 i 54,985 yn 2008/09. Mae nifer y merched yn parhau i fod yn fwy na nifer y bechgyn sef 55.8% o gymharu â 44.2% yn 2008/09.
- Mae gan blant sy'n derbyn gofal gyfraddau cyrhaeddiad sylweddol is na disgyblion eraill.

**Ffigur 4: Pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), Cymru a Lloegr (1996-2009)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
p = data dros dro

[1] Bydd myfyriwr yn hanu o Gymru os yw cyfeiriad parhaol neu gyfeiriad cartref y myfyriwr cyn iddo ddechrau ar y cwrs yng Nghymru. Nid cyfeiriad gohebiaeth y myfyriwr ydyw o reidrwydd ac oherwydd na nodir ers pryd y mae wedi byw yn y cyfeiriad parhaol nid yw o reidrwydd yn cynrychioli'r wlad lle cafodd myfyriwr y rhan fwyaf o'i addysg cyn AU.

[2] Mae cofrestriadau yn cynnwys rhai ôl-raddedig, is-raddedig, rhan amser a llawn amser.

**Blwch 3: Darn allan o astudiaeth *Voices of Children and Young People in Wales* (Noder nad yw ar gael yn Gymraeg)**

Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn mwynhau mynd i'r ysgol, gan gael boddhad amrywiol o agweddau ar y cwricwlwm, addysgeg, eu cyd-ddisgyblion ac athrawon. Un pryder a fynegwyd ynghylch yr ysgol oedd ei haddasrwydd at y diben canfyddedig mewn byd sy'n newid. Hynny yw, roedd y disgyblion yn ffafrio pynciau ymarferol a mynegwyd dyhead i ganolbwyntio mwy ar bynciau a fyddai'n eu helpu i 'fyw bywyd'. Nododd llawer o bobl ifanc ei bod yn bwysig iawn dysgu sut i reoli arian yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Roedd straen yn broblem a oedd yn codi ymhlith pobl ifanc yn enwedig mewn perthynas â gofynion cyflawniad addysgol ac, yn gysylltiedig â hyn, y siawns o gael gwaith. Roedd pobl ifanc yn teimlo dan gryn bwysau i gael graddau da, gan fod yn ymwybodol ar yr un pryd ei bod yn bosibl na fydd rhain hyd yn oed yn sicrhau eu dyfodol.


### Iechyd, Rhyddid o Gamdriniaeth a Chamfanteisio

Yn amlwg, mae iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc yn ganolog i ddadansoddi eu lles. Yn yr un modd, gwyddys bod ffactorau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw, megis y defnydd o alcohol a gordewdra, yn cael effaith andwyol bosibl ar iechyd nawr ac yn y dyfodol. Hefyd, mae patrwm cymdeithasol yn perthyn i lawer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw, gyda'r rheini o gefndiroedd llai cefnog yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffyrdd andwyol.

Gellid dweud bod canolbwyntio ar y fath wybodaeth yn unig yn dilyn model iechyd y cyhoedd sy'n seiliedig ar ddiffygion, gan ganolbwyntio ar y problemau hynny y mae angen i bolisïau eu datrys. Er bod y model diffygion hwn yn bwysig, yn ddelfrydol dylai gael ei ategu gan asedau sy'n mynd i'r afael â'r broblem, y ffactorau hynny sy'n meithrin cadernid ac yn hyrwyddo iechyd a lles cadarnhaol, megis cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, mwynhau amgylchedd cadarnhaol yn yr ysgol a chyfathrebu hwylus â theulu a ffrindiau - agweddau ar les a drafodir mewn rhannau eraill o'r Monitor.

Un o ganfyddiadau mwyaf arwyddocaol y Monitor yw bod cyfraddau ysmygu ymhlith plant 15 oed wedi parhau i ostwng ers cyrraedd uchafbwynt ar ddiwedd y 1990au yn achos bechgyn a merched, er ei fod yn fwy cyffredin ymhlith merched na bechgyn (gweler Ffigur 5). Gwelir y duedd hon ledled y DU ac mae hefyd yn wir am blant 13 oed.

Ffigur 5: Ysmygu wythnosol ymhlith plant 15 oed, Cymru (1990-2009)




Ffynhonnell: Astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC)

Hefyd yn gostwng mae cyfran y plant 15 oed sy'n yfed bob wythnos sydd, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi syrthio i'r fath raddau yn 2009/10 fel bod bron i ddau o bob pum bachgen (36%) ac un o bob tair merch (30%) yn nodi eu bod yn yfed mor aml â hyn. Mae hyn o gymharu â 58% o fechgyn a 54% o ferched yn 2001/02.

Y canfyddiadau allweddol eraill mewn perthynas â lles plant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n gysylltiedig ag iechyd yw:

- Mae iechyd deintyddol plant 11 a 12 oed wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae lleiafrif sylweddol o'r glasoed yn cael cyfathrach rywiol yn 15 oed neu'n iau. Mae'r ffigurau hyn wedi aros yn weddol debyg dros y blynyddoedd diwethaf, tra bod cyfraddau chlamydia wedi cynyddu ymhlith y grŵp oedran 15-24 oed. Mae cyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau wedi aros yr un peth dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae nifer yr achosion o dderbyn cleifion i'r ysbyty mewn perthynas â hunan niwed yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r nifer yn is ar gyfer bechgyn na merched, yn enwedig ymhlith y grŵp oedran 15-17 oed.
- Mae tystiolaeth bod nifer yr achosion o hunanladdiad ymhlith y grŵp oedran 15-24 oed wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymhlith bechgyn, ond dylid dehongli'r duedd hon yn ofalus o ystyried, diolch byth, y nifer fach o achosion o hunanladdiad bob blwyddyn.
- Mae merched glasoed yn dueddol o farnu nad yw eu hiechyd gystal o gymharu â bechgyn, tra bod cyfraddau boddhad mewn bywyd yn dirywio gydag oedran yn achos merched ond yn aros yr un peth yn achos bechgyn.

- Ystyrir bod lleiafrif sylweddol o blant, glasoed ac oedolion ifanc dros bwysau neu'n ordew.
- Dywed llai nag un o bob tri o'r glasoed eu bod yn bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd, tra bod llai na hanner merched hŷn yn bwyta brecwast bob bore.

**Blwch 4: Darn allan o astudiaeth *Voices of Children and Young People in Wales* (Noder nad yw ar gael yn Gymraeg)**

Roedd plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r gydberthynas rhwng eu hymddygiad a'u hiechyd (ac felly'n derbyn peth cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain). Waeth beth fo'u hoedran, roedd plant a phobl ifanc yn gallu gwahaniaethu rhwng diet iach a diet nad yw'n iach, er i'r rhan fwyaf gyfaddef bod yn well ganddynt fwyd nad yw'n iach. Roedd rhai pobl ifanc yn gwneud iawn am ddiet nad yw'n iach drwy wneud ymarfer corff. Prin iawn oedd nifer y plant a phobl ifanc a ddywedodd eu bod, neu eu bod wedi, ysmygu ac ar y cyfan roedd hynny yn cael ei ystyried yn beth nad oedd yn iach ac nad oedd yn 'ffasiynol' mwyach. Nododd y rhan fwyaf o blant ifanc nad oeddent yn hoffi alcohol nac yn ei yfed, er yr ystyriwyd mai dyma oedd y norm ymhlith pobl ifanc hŷn (gan gynnwys y rhai dan oedran), gydag ambell un yn cydnabod ei fod yn goryfed.


### Cael Cyfleoedd Chwarae, Hamdden, Chwaraeon a Diwylliant

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol gael effaith bwysig ar wella agweddau eraill ar les plant a phobl ifanc megis iechyd yn achos gweithgarwch corfforol. Gall hefyd gyfrannu'n fwy cyffredinol at helpu i wella cymhelliant a datblygu amrywiaeth o sgiliau sy'n helpu plant a phobl ifanc i ddysgu, meithrin hunaniaeth ac ymgysylltu ag eraill. Fel gydag agweddau eraill ar les, rhywedd a statws economaidd-gymdeithasol sy'n peri'r prif wahaniaethau.

Gall monitro'r fath agweddau ar fywydau plant a phobl ifanc helpu i fesur rhai o'r ffyrdd ehangach y maent yn tyfu i fyny. Er enghraifft, mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod nifer y bobl ifanc sy'n treulio pedair noson neu fwy bob wythnos gyda ffrindiau wedi lleihau rhwng 2005/06 a 2009/10 yn achos pob oedran. Mae'r patrwm oedran yn wahanol rhwng bechgyn a merched.

Mae bechgyn yn fwy tebygol o gyflawni'r lefelau o weithgarwch corfforol a argymhellir na merched. Yn achos y ddau mae hyn yn dirywio gydag oedran felly erbyn y cyrhaeddir 15 oed mae un o bob pump o fechgyn a thua un o bob deg o ferched yn nodi'r lefel hon o weithgarwch. Yn gysylltiedig â hynny, gwelir tuedd raddol am lai o oriau o amser athrawon yn cael eu treulio ar weithgareddau addysg gorfforol allgyrsiol (gweler Ffigur 6). Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ar lefel clwb wedi cynyddu'n raddol dros y 10 mlynedd diwethaf. Roedd ychydig yn fwy o ddisgyblion 7-11 oed yn cymryd rhan reolaidd mewn chwaraeon ar lefel clwb na phlant uwchradd (11-16 oed).

Ffigur 6: Nifer yr oriau o amser athrawon a ddarparwyd ar gyfer AG allgyrsiol, `
11-16 oed (1999-2009)




Ffynhonnell: Arolwg Darpariaeth AG Chwaraeon Cymru

Ar y cyfan, mae nifer y plant a phobl ifanc 7-18 oed sy'n mynd i ddigwyddiadau celfyddydol neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf, gyda mwy o ferched na bechgyn yn gwneud hyn ac mae mwy o blant a phobl ifanc o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn gwneud hyn.

Y canfyddiadau allweddol eraill sy'n ymwneud â chael cyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant yw:

- Lleihaodd nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd nofio am ddim yn achos plant 16 oed ac iau yng Nghymru o 808,000 yn 2004/05 i 569,000 yn 2009/10, sydd 29.6% yn llai. Roedd y duedd i lawr hon yn gyson ac eithrio cynnydd bach yn 2008/09. Y prif reswm dros hyn yw'r ffocws cynyddol ar weithgarwch strwythuredig a meithrin sgiliau o fewn y Rhaglen Nofio am Ddim. Cynyddodd y nifer o weithgareddau nofio strwythuredig bron pedwar-plyg rhwyng 2004/05 a 2009/10 o 24,000 i 94,000.
- Lleihaodd nifer y bobl ifanc a oedd yn gwylio'r teledu am o leiaf ddwy awr bob nos yn ystod yr wythnos rhwng 2005/06 a 2009/10. Ar y llaw arall, cynyddodd nifer y bobl ifanc a oedd yn defnyddio cyfrifiadur i chwarae gemau ac at ddibenion eraill.
- Mae dros dri chwarter y disgyblion 11-16 oed yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol a gweithgareddau hamdden corfforol.

## Blwch 5: Darn allan o astudiaeth *Voices of Children and Young People in Wales* (Noder nad yw ar gael yn Gymraeg)

Roedd plant ifanc yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardaloedd lle roeddent yn byw, yn bennaf oherwydd y bobl roeddent yn eu hadnabod (teulu a ffrindiau) a'r cyd destunau (gan gynnwys gerddi, y stryd a pharciau) lle gallent chwarae. Wrth asesu lle roeddent yn byw roedd plant hŷn a phlant yn eu harddegau hefyd yn canolbwyntio ar weld eu ffrindiau ond, yn achos y rheini mewn ardaloedd gwledig, roeddent yn aml yn feirniadol o absenoldeb canfyddedig adloniant addas i bobl ifanc.


### Gwrandewir ar Blant a Phobl ifanc, cânt eu Trin â Pharch ac mae eu Hil a'u Hunaniaeth Ddiwylliannol yn cael eu Cydnabod

Prif ffocws Nod Craidd 5 yw galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Un dybiaeth allweddol yw y gall hyn helpu i newid 'cydbwysedd pŵer' mewn cydberthnasau rhwng plant a phobl ifanc ac oedolion, megis rhwng staff ysgol a disgyblion, neu rhwng plant a rhieni neu, yn ehangach, mae a wnelo â chynhwysiant mewn sefydliad neu gymuned. Drwy gyfranogi ceir cyfle i newid agweddau, meithrin sgiliau newydd a datblygu cydberthnasau sy'n fwy cyfartal.

Y canfyddiadau allweddol a nodwyd yn y Monitor yw:

- Roedd 31 y cant o blant a phobl ifanc 16-25 oed wedi gwirfoddoli i helpu ffrindiau, cymdogion neu aelodau eraill o'r gymuned yn y flwyddyn ddiwethaf ac roedd 20% wedi gwirfoddoli i sefydliad. Roedd hon yn gyfran uwch ar gyfartaledd na'r 20% o blant a phobl ifanc 16-24 oed a wnaeth ymateb i gwestiwn tebyg yn arolwg Byw yng Nghymru 2008. (gweler Ffigur 7)
- Dangosodd data astudiaeth HSBC 2009/10 fod 60% o fechgyn a merched 15 oed yng Nghymru yn dweud bod eu cyd-ddisgyblion yn garedig ac yn gymwynasgar. Fel yr arolwg blaenorol, roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud bod eu cyd-ddisgyblion yn garedig ac yn gymwynasgar.
- Pleidleisiodd ychydig dros un rhan o bump o bobl ifanc 18-24 oed yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007.
- Nododd cyfran sylweddol is o bobl ifanc eu bod wedi pleidleisio o gymharu â'r boblogaeth gyfan.
- Nododd Estyn fod y graddau y gall plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu haddysg yn gwella ond bod y sefyllfa'n dal i amrywio ledled Cymru a rhwng sectorau addysg.
- Roedd 92 y cant o blant a phobl ifanc 14-25 oed yng Nghymru a Lloegr o'r farn bod bylchau sylweddol yn y gwasanaethau a ddarparwyd iddynt.
- Roedd pobl ifanc 16-29 oed yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth na thrigolion dros 40 oed.

Ffigur 7: Canran yr ymatebwyr a oedd yn gwirfoddoli i sefydliad, ffrindiau, cymdogion neu aelodau eraill o'r gymuned yn y 12 mis diwethaf, Cymru (2010)




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Peilot Cymru

## Blwch 6: Darn allan o astudiaeth *Voices of Children and Young People in Wales* (Noder nad yw ar gael yn Gymraeg)

Waeth beth fo'u hoedran, roedd plant a phobl ifanc o'r farn bod cydberthnasau ag eraill yn un o'r agweddau mwyaf pwysig ar eu lles. Fel rheol, roedd cydberthnasau yn fwy pwysig na phethau materol i blant a phobl ifanc. Roedd plant iau yn canolbwyntio'n bennaf ar bwysigrwydd eu rhieni/gwarcheidwaid yn eu bywydau, tra bod plant hŷn yn edrych ar eu cydberthnasau â'u cyfoedion, athrawon a phobl bwysig eraill, yn ogystal â'u teuluoedd.

Amlygodd plant a phobl ifanc bwysigrwydd trin pobl eraill â pharch, ac yn yr un modd fel y byddent hwythau am gael eu trin. Ar y cyfan roeddent i'w gweld yn oddefgar o wahaniaethau ac yn wir yn eu gwerthfawrogi. Felly, roeddent yn derbyn ac yn croesawu cyfleoedd i gymysgu ag eraill, â phrofiadau, cefndiroedd a diwylliannau gwahanol. Yn yr ystyr hon roedd pobl ifanc i'w gweld yn derbyn ac yn cynnwys eraill yn gyffredinol.

Nododd llawer o blant a phobl ifanc fod ymdeimlad o hunaniaeth yn bwysig iawn. Dywedodd llawer o'r rheini a gymerodd ran yn yr astudiaeth eu bod yn falch o fod yn Gymry a bod hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Yn yr un modd roedd y bobl ifanc hynny a oedd yn ystyried eu hunain yn Saeson (yn aml wedi eu geni yn Lloegr a heb fawr ddim ymwneud â'r Gymraeg yn yr ardaloedd lle roeddent yn byw) yn hawlio hunaniaeth Seisnig. Yn bwysig nid oedd ymdeimlad cryf o hunaniaeth yn cael ei ystyried yn rhywbeth a oedd yn bygwth eraill a oedd yn ystyried bod ganddynt hunaniaeth wahanol.

I'r rheini a oedd yn byw ar y ffin, roedd hunaniaeth yn fwy amwys ac roedd rhai pobl ifanc yn ei chael yn anodd lleoli eu hunain. Er gwaethaf pwysigrwydd canfyddedig hunaniaeth a pherthyn, yn y rhan fwyaf o achosion roedd pobl ifanc yn ymbellhau wrth agweddau ac ymddygiad gwladgarol eithafol.


Amlygodd y rhan fwyaf o bobl ifanc bwysigrwydd eiriolwyr yn eu bywydau, sef oedolion (gan gynnwys rhieni ac athrawon) a fyddai'n gwrando arnynt. Ar y cyfan dywedodd pobl ifanc fod oedolion yn hidlo'r materion hynny nad oeddent yn credu eu bod yn bwysig a godwyd gan blant a phobl ifanc ac, mewn rhai achosion, cwestiynwyd gallu oedolion i ddirnad yr hyn a oedd yn bwysig i'r genhedlaeth iau. Yn gyffredinol dywedodd plant, ar wahân i'r rheini roeddent yn eu hadnabod, nad oedd oedolion (a'r cyfryngau) yn parchu plant a phobl ifanc.

### Cartref a Chymuned Ddiogel

Cydnabuwyd ers amser pa mor bwysig yw amddiffyn plant ac oedolion ifanc rhag niwed corfforol a seicolegol a all gael ei achosi gan bobl eraill - er enghraifft drwy drosedd neu fwlio - neu gan eu hamgylcheddau uniongyrchol - er enghraifft drwy ddamwain neu dai gwael. Noda'r Monitor beth yw'r sefyllfa iechyd a diogelwch yn achos pobl iau yng Nghymru. Y prif ganfyddiadau a nodwyd yw:

- Dywedodd tua 20% o blant 10-15 oed ym Mhrydain Fawr eu bod wedi dioddef trosedd yn 2009.
- Mae nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol wedi lleihau ers 1979, gan adlewyrchu newidiadau yn ymddygiad plant tuag at y ffyrdd ac, o ran y rheini sy'n berchen ar gar, dueddiadau i brynu ceir mwy diogel (gweler Ffigur 8). Fodd bynnag, dengys peth data diweddar fod nifer y cerddwyr a beicwyr a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol wedi sefydlogi ers 2006 felly, ar hyn o bryd, mae'r lefelau'n cynnwys cyfran gynyddol o anafusion sy'n blant.
- Awgryma tueddiadau diweddar mewn perthynas â gyrwyr ifanc sydd mewn damwain fod y cyfraddau'n gostwng yn fwy araf nag ar gyfer gyrwyr hŷn. O gymharu'r cyfnod 1994-98 â 2004-08, mae nifer y gyrwyr ifanc sydd mewn damwain wedi lleihau 10%, ond mae nifer y gyrwyr hŷn sydd mewn damwain wedi lleihau 17%.
- Yn 2008 roedd tua 74,000 o blant a phobl ifanc 0-24 oed yn byw mewn amodau gorlawn.
- Mae dioddef bwlio yn dueddol o leihau gydag oedran gyda thua 6% o blant 15 oed yn nodi eu bod yn cael eu bwlio'n fynych yn 2009/10.

Ffigur 8: Tueddiadau - anafusion sy'n blant (0-15 oed) yn ôl y math o ddefnyddiwr ffyrdd, mynegai 1979=100 (1979-2009)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
KSI = Eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol

## Blwch 7: Darn allan o astudiaeth *Voices of Children and Young People in Wales* (Noder nad yw ar gael yn Gymraeg)

Waeth beth fo'u hoedran, roedd teimlo'n ddiogel yn bwysig i blant a phobl ifanc. Roedd plant iau, yn arbennig, yn ymateb i ofnau oedolion (megis y 'dieithryn yn y papur') ac yn troi at eu rhieni i'w diogelu. Roedd pobl ifanc yn dod yn fwy ymwybodol o gyd-destunau diogelwch ac oedran wrth iddynt fynd yn hŷn, er enghraifft, bod allan ar eu pen eu hunain gyda'r nos ac mewn ardaloedd gwahanol o'r ddinas. Tra bo rhieni yn rheoli amgylchedd plant bach (er enghraifft, lle maent yn chwarae a'u defnydd o'r Rhyngrwyd), wrth iddynt fynd yn hŷn, roedd pobl ifanc yn dysgu cymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain. Roedd pobl ifanc â phlant eu hunain yn gwerthfawrogi amgylcheddau diogel a chyd-destunau cymuned glos i'w plant ond, mewn ardaloedd gwledig, ystyriwyd mai anfanteision hyn oedd bod pawb yn gwybod busnes pawb.

Roedd pawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn ymwybodol o faterion bwlio ac roedd hyn wedi effeithio ar lawer ohonynt. Siaradodd pobl ifanc am y diflastod a'r unigrwydd a deimlent ar ôl cael eu cam-drin gan eraill, yn enwedig yn yr ysgol. Er y dywedwyd bod oedolion yn ceisio mynd i'r afael â bwlio, ystyriwyd nad oeddent weithiau yn gallu dirnad pa mor ddifrifol oedd y broblem. Roedd hyn yn rhannol am fod y ffenomenon yn cael ei ystyried yn fwy difrifol nawr nag yr oedd pan oedd oedolion yn blant. Dywedwyd bod bwlio yn cael effaith ddifrifol ar ganlyniadau pobl ifanc (gan gynnwys lles seicolegol a chanlyniadau addysgol).

## Tlodi

Gall tlodi effeithio ar bob agwedd ar fywyd plentyn. Mae'r effeithiau hyn yn amrywio o anfantais economaidd a materol, i gyfyngiadau ac allgáu cymdeithasol. Hefyd, ceir materion personol sy'n gysylltiedig â stigma megis cywilydd, tristwch ac ofn bod yn wahanol. Mae'r effeithiau hyn yn fwy cudd yn aml.

Yn arbennig, dengys tystiolaeth fod plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn agored i niwed mewn sawl ffordd wahanol. Maent yn wynebu mwy o risg o gyrhaeddiad addysgol gwael, maent yn fwy tebygol o gael canlyniadau iechyd gwaeth, ac mae ganddynt sgiliau a dyheadau isel. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod ar gyflog isel, yn ddi-waith ac yn ddibynnol ar fudd-daliadau fel oedolyn.

Dengys canfyddiadau allweddol o'r Monitor dueddiadau dros amser o ran lefelau tlodi plant yng Nghymru a'r graddau y mae plant a theuluoedd yng Nghymru yn byw mewn tlodi difrifol a pharhaus. Er enghraifft, mae bron i un o bob tri (32%) o blant yng Nghymru - tua 200,000 - bellach yn byw mewn tlodi, yn ôl mesur incwm cymharol (gweler Tabl 2). Mae hyn un pwynt canran yn uwch nag ar gyfer y DU. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd tlodi plant dri phwynt canran yn uwch na ffigur y DU. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae tlodi plant yng Nghymru wedi gostwng bedwar pwynt canran tra bo ffigur y DU wedi gostwng ddau bwynt canran.

### Tabl 2: Canran y plant sy'n byw ar aelwyd sydd o dan 60% o incwm canolrif (Ar ôl Costau Tai), cymharu gwledydd y DU (1997-2009)

| | 97-98 i 99-00 | 98-99 i 00-01 | 99-00 i 01-02 | 00-01 i 02-03 | 01-02 i 03-04 | 02-03 i 04-05 | 03-04 i 05-06 | 04-05 i 06-07 | 05-06 i 07-08 | 06-07 i 08-09 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 36 | 35 | 34 | 34 | 32 | 31 | 28 | 29 | 32 | 32 |
| Y DU | 33 | 33 | 31 | 30 | 30 | 29 | 29 | 30 | 30 | 31 |
| Yr Alban | 31 | 32 | 32 | 30 | 28 | 26 | 25 | 25 | 24 | 25 |
| Gogledd Iwerddon | | 30 | 29 | 28 | 28 | 27 | 27 | 26 | 26 | 26 |

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Y canfyddiadau allweddol eraill sy'n gysylltiedig â thlodi plant yn y Monitor yw:

- Rhwng 1998/00 a 2000/01 roedd 34% o blant yn byw mewn tlodi absoliwt. Gostyngodd y ganran hon i 20% rhwng 2002/03 a 2004/05 ac mae bellach wedi dechrau cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynyddu i 21% rhwng 2006/07 a 2008/09.
- O ddiwedd y 1990au, gwelwyd llai a llai o blant yn byw ar aelwyd nad oedd yn gweithio yng Nghymru - ac erbyn 2006, roedd 16.9% o blant yn byw ar aelwyd nad oedd yn gweithio. Yn fwy diweddar, mae'r ffigur hwn wedi

cynyddu - ac erbyn 2009, roedd ychydig o dan un rhan o bump (19.9%) o blant yn byw ar aelwyd nad oedd yn gweithio.

- Er bod rhywun sy'n gweithio yn wynebu llai o risg o fyw mewn tlodi, awgryma amcangyfrifon diweddar fod mwy na hanner y plant sy'n byw mewn tlodi bellach ar aelwyd lle mae o leiaf rywun yn gweithio. Serch hynny mae'r rhan fwyaf o'r rhain naill ai'n hunangyflogedig neu'n gweithio'n rhan amser.
- Roedd 50,200 o bobl 16-24 oed yn ddiwaith yng Nghymru yn y 12 mis yn gorffen mis Mehefin 2010. Mae hon yn gyfradd diweithdra o 21.7%, o gymharu â chyfradd y DU sef 19.5%. Rhwng y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2009 a'r flwyddyn hyd at fis Mehefin 2010, cododd y gyfradd diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru 3.2 pwynt canran - sef y pumed cynnydd mwyaf o blith rhanbarthau Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig. Roedd gan Gymru'r drydedd gyfradd diweithdra uchaf ymhlith pobl ifanc o blith y 12 rhanbarth a gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer y rheini rhwng 16 a 24 oed. Yn yr un grŵp oedran, roedd y cynnydd yn y gyfradd diweithdra yn uwch i ddynion nag i ferched.
- Dengys y data mwyaf diweddar o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru fod 25% o blant yng Nghymru yn byw mewn teuluoedd rhieni unigol yn 2009, o gymharu â ffigur y DU sef 23%.
- Mae nifer y rhieni unigol sy'n gweithio yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n raddol. Yn 2004/06, roedd 54.5% o rieni unigol yn gweithio. Cynyddodd y ffigur hwn i 55.7% erbyn 2007/09.

### Blwch 8: Darn allan o astudiaeth *Voices of Children and Young People in Wales* (Noder nad yw ar gael yn Gymraeg)

Er i'r plant a phobl ifanc nodi dewis alwedigaethau yn hawdd, nid oedd y plant hŷn yn siŵr a fyddent yn gwireddu eu breuddwydion oherwydd yr argyfwng economaidd a'r gystadleuaeth am swyddi. Roedd pobl ifanc yn meddwl am arian ac yn cadw llygad ar y dyfodol. Nododd rhai pobl ifanc fod ffioedd dysgu yn rhwystr i fynd i'r brifysgol oherwydd y rhagolygon o fod mewn dyled fawr heb fod unrhyw sicrwydd o gael gwaith ar ôl graddio.